OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1602

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 22) 2020

## RHAN 2

Diwygiadau i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

### Hepgor gwledydd a thiriogaethau o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

**2.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer y cofnodion a ganlyn—

"Gweriniaeth Namibia"

"Uruguay"

"Ynysoedd y Wyryf yr Unol Daleithiau".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 2 mewn grym ar 19.12.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

### Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 19 Rhagfyr 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2 ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 4.00 a.m. ar 19 Rhagfyr 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 3 mewn grym ar 19.12.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**

Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 22) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– Regulations revoked by S.I. 2022/315 Sch. para. 27